**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-967
Ein cyf/Our ref: RE/00581/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

28 Gorffennaf 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr ynglŷn ag ardrethi annomestig a'r cymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i fusnesau.

Cyfarfûm â Mark Gifford, Cadeirydd Debenhams, ar 12 Mai i ddysgu rhagor am sefyllfa'r cwmni a gofynnais i swyddogion ystyried a fyddai cymorth arall yn opsiwn.

Ar 23 Mehefin, aeth Ken Skates AS, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, a minnau i gyfarfod bwrdd Consortiwm Manwerthu Cymru. Roedd cynrychiolwyr o nifer o fusnesau yr effeithiwyd arnynt gan y penderfyniad i gyfyngu rhyddhad ardrethi i eiddo â gwerth ardrethol o hyd at £500,000 yn bresennol yn y cyfarfod. Ymhlith y rhai a oedd yn bresennol roedd cynrychiolwyr o'r busnesau hynny yn y sector manwerthu yn ogystal â chynrychiolwyr o archfarchnadoedd mawr.

Mae busnesau nad ydynt yn gymwys i gael cymorth ardrethi annomestig wedi gallu gwneud cais am gymorth ariannol o'n Cronfa Cadernid Economaidd gwerth £500m. Mae ein cymorth ariannol uniongyrchol wedi cael ei ategu gan fynediad at fenthyciadau a chynlluniau Llywodraeth y DU, gan gynnwys y Cynllun Cadw Swyddi.

Mae busnesau nad ydynt wedi bod yn gymwys i gael cymorth ariannol wedi cael cyngor ac arweiniad gan wasanaeth Busnes Cymru. Rydym hefyd wedi gwella ein cymorth i weithwyr ac unigolion sy'n wynebu cael eu diswyddo.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd